

CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn: Tel: 07896964120

cyngorybala@outlook.com

Cofnodion Cyngor Tref Y Bala

5/1/2017

Presennol: Y Maer Edith Roberts, Y Dirprwy Faer Dorothi Evans, Dilys Evans, Sharon Evans, Dilwyn Jones, Eluned Jones, Ivora Jones, Alun Price, Eifion Roberts, Carol Rowlands, John Caradog Williams, Dilwyn Morgan (*Cynghorydd Gwynedd*), Lis Puw (*Clerc*).

Ymddiheuriadau: Tony Parry

1. Dymunodd y Maer Flwyddyn newydd dda i bawb ac ar ran y Cyngor dymunodd Dilwyn Jones flwyddyn newydd dda i'r Maer.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Nid oedd datganiadau buddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 8/12/16.
5. **Materion y Clerc:**
 - i. Derbyniwyd ateb gan Barc Cenedlaethol Eryri i ymholiadau'r Cyngor:
 - a. Mae caniatâd dros dro i'r storfa ar y maes rygbi yn golygu cyfnod o 3 mlynedd. Byddai angen cais newydd ac fe fyddai proses ymgynghoriad newydd ar ôl 3 mlynedd.
 - b. Mae adeilad y Co-op o fewn ffiniau cadwraethol y dref.
 - ii. Rhoddodd y Cynghorwyr adroddiad o'r cyfarfod a gafwyd gyda'r Aelod Cynulliad ar 9/12/16 pryd y trafodwyd diogelwch y groesfan a gwelliannau er mwyn diogelwch. Diolchwyd i Dafydd Elis Thomas am ei gefnogaeth i ymdrechion y Cyngor Tref ac am ddwyn y mater i sylw'r Ysgrifennydd Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith.
 - iii. Arwydd yn cyfeirio at "Maes y Gerddi" – mae cais wedi ei anfon at Gyngor Gwynedd a dywedodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan y byddai'n holi eto.
6. **Adroddiad y Cynghorydd Sir:** Addawodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan y byddai'n gwneud ymholiadau ynglŷn a'r drefn gwasanaeth warden dydd a nos yn y Tai Gwarchod yng Nghysgod y Coleg.
7. **Un Llais Cymru**
 - i. Derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr o'r Cyfarfod Ardal yn Nhachwedd pryd y cafwyd cyflwyniad a sesiwn cwestiwn ac ateb diddorol iawn yng nghwmni Ffion Johnstone a Catrin Morris o'r Bwrdd Iechyd.
 - ii. Derbyniwyd gwybodaeth na fydd tâl am hyfforddiant mis Tachwedd.

8. Materion Cynllunio

Cymeradwywyd cais cynllunio NP5/53/ADL8K sef arddangos ffasia rhannol oleuedig, arwydd ymwithiol a logo wedi ei oleuo'n fewnol a phaneli wal alwminiwm heb eu goleuo. Tynnwyd sylw at y sillafu anghywir ar y cais a mynegwyd yn gryf y dymuniad i'r Gymraeg fod yn uchaf ar yr arwyddion.

Derbyniwyd Tystysgrif Cyfreithlondeb y mast gorsaf dywydd.

Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd wedi ei roi i garej 5 Cae Bach.

9. Materion Cyllid

- i. Ystyriwyd y sefyllfa ariannol ddiweddaraf. Derbyniwyd yr wybodaeth i fonitro gwariant yn erbyn y Gyllideb a chafwyd y sefyllfa yn foddhaol.
- ii. Derbyniwyd adroddiad yr Is-bwyllgor Cyllid a rhoddwyd ystyriaeth i'r argymhellion. Cytunwyd ar y Praesept ar gyfer 2017-18, gan gofio am gostau ychwanegol o gynnal etholiadau ac am gostau tebygol cynnal toiledau yn y dref. Cytunwyd bod angen cadw arian wrth law ar gyfer gwella delwedd y dref, megis prynu lloches bws a chyfrannu at weithgareddau lles yn yr Henblas. Cytunwyd i hysbysebu am dendrau ar gyfer cynnal y Domen am dair mlynedd, gyda'r Clerc i baratoi'r fanyleb.
- iii. Cadarnhawyd gofyn i Mr John Roberts weithredu fel Archwilydd Mewnol ar gyfer 2016-17.
- iv. Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis.
- v. Derbyniwyd Tystysgrif Defnydd Trydan heb Fesurydd ar gyfer goleuo'r coed oddi wrth trydan y lampau stryd.
- vi. Derbyniwyd gwybodaeth am ofynion y Pensions Regulator a chytunwyd i drosglwyddo'r mater i sylw Hill & Roberts.
- vii. Adroddodd y Clerc fod cais wedi ei wneud i Gyngor Gwynedd am ad-daliad cost gwaith cynnal Y Domen.
- viii. Rhoddwyd ystyriaeth i Lwfans Cyngorydd o dan Adran 142 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru 2011). Gwrthododd pob un o'r Cynghorwyr dderbyn lwfans (heblaw am gostau teithio wrth gynrychioli'r Cyngor) na thâl am eu gwaith fel aelodau o Gyngor Tref Y Bala, gan fynegi ei bod yn ffrainc cael gwasanaethu'r trigolion yn wirfoddol.
- ix. Derbyniwyd gwybodaeth am uchafswm a ganiateir o dan Gwariant Adran 137 am y flwyddyn 2017-18 (£7.57 ar gyfer pob etholwr).

10. Gohebiaeth

- i. **Gwynedd** – derbyniwyd llyfryn "Eich Ardal Chi" (cyhoeddiad Asesiad Llesiant Gwynedd a Môn)
- ii. **Hunaniaith:** Derbyniwyd gwybodaeth am gyfarfod yn yr Henblas am 6.00pm ar 2/2/17
- iii. **Grŵp Cynefin** – rhanwyd gwybodaeth am eiddo ar osod yn Y Bala a Llandderfel.
- iv. **Un Llais Cymru** – cytunodd y Clerc i fynychu hyfforddiant ym Mhenryndeudreth ar 2/2/17.

11. **Partneriaeth Penllyn:** derbyniwyd adroddiad gan y cydlynnydd yn cyfeirio at waith Arloesi Gwynedd Wledig gyda'r Bartneriaeth. Mynegodd y dymuniad i'r toiledau fod o safon derbyniol cyn y gellid cymryd cyfrifoldeb llwyr ohonynt.
12. **Asedau'r Cyngor** – nid oedd unrhyw fater angen sylw a diolchwyd i Carol Rowlands am ei gofal arbennig o'r Domen.
13. **Materion lleol y Cyngorwyr Tref** : Cytunwyd i ysgrifennu at y Comisiwn Iaith a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr gyda chopi i'r Aelod Cynulliad i fynegi anfodlonrwydd yn nghylch diffyg darpariaeth Cymraeg yn yr hyfforddiant ar glefyd y siwgr sydd ar fin digwydd yn Y Bala.
14. **Dyddiad a lleoliad y Cyfarfod nesaf:** Cytunwyd i newid y dyddiad arferol a chynnal y cyfarfod nesaf ar 16/2/ 17 yng Nghanolfan Henblas. Bydd y cyfarfod yn cychwyn am 6.30pm er mwyn ystyried ceisiadau am grantiau lleol.

Amser gorffen: 8.40pm